

Manic Street Preachers: Everything Must Go

Ffurf ac adeiledd:

Mae'r cynllun cyffredinol yn cael ei ddisgrifio fel **strwythur Pennill-Cytgan**, gyda rhagarweiniad, pennill, cyn-gytgan, cytgan a diweddglô.

Cyflwyniad	Pennill 1, cyn-gytgan, + cytgan + interliwd offerynnol	Pennill 1, cyn-gytgan, + cytgan + interliwd offerynnol/lleisiol	Cyn-gyntgan, cytgan + ailadrodd y gytgan (wedi'i chwtdogi ychydig)	Diweddglô
BARRAU:				
1-6	7-38	39-74	75-108	109-116
Offerynnol	7-14: pennill 1 15-18: cyn-gytgan 19-34: cytgan 35-38: offerynnol (yr un peth â'r rhagarweiniad)	39-46: pennill 2 47-50: cyn-gytgan 51-66: cytgan 67-74: Offerynnol + interliwd lleisiol	75-78: cyn-gytgan 79-94: cytgan 95-108: cytgan (wedi'i chwtdogi)	

Tempo:

bpm (curiadau y funud) = 135 yw'r arwydd ar y metronom, sef cyflym / bywiog.

Dynameg:

Yr un peth drwy gydol y gân yn gyffredinol – Mezzo forte (**mf**) / Forte (**f**).

Cyweiredd: E FWYAF. Hwn yw'r cywair 'cartref'.

Cefndir:

Cafodd yr albwm 'Everything Must Go' ei ryddhau gan y Manics ym mis Mai 1996.

Cafodd y record sengl ei rhyddhau ym mis Mehefin yn yr un flwyddyn. James Dean Bradfield a Sean Moore gyfansoddodd y gerddoriaeth a Nicky Wire ysgrifennodd y geiriau.

Enillodd yr albwm wobwr am yr Albwm Prydeinig Gorau yng ngwobrau'r Brit yn 1997, lle gwnaeth y Manics hefyd gipio'r wobwr am y Grŵp Prydeinig Gorau.

Genre: Roc amgen/Britpop

Harmoni: DIATONIG yn bennaf

Mae'r gân yn seiliedig ar dri phatrwm cord:

Am/E – E fwyaf 7: a ddefnyddir yn y rhagarweiniad, y pennill, yr interliwd a'r diweddglô

C#m7 – Am: a ddefnyddir yn y cyn-gytgan

E – Am – D – E: a ddefnyddir yn ystod y gytgan (mae'r rhan fwyaf o gordiau yn y safle **gwreiddiol**)

Am/E – yw'r cord A leiaf yr 2^{il} wrthdro

E fwyaf 7 – yw'r cord E fwyaf + mwyaf 7^{fed} (E, G#,B, D#)

C#m7 – yw cord C#leiaf + lleiaf 7^{fed} wedi'i ychwanegu.

Gwead:

Homoffonig: alaw a chyfeiliant.

Mae'r llinynnau'n ychwanegu haen arall o liw (e.e. yn ystod yr interliwd offerynnol), ac mae'r lleisiau cefndir yn cyfoethogi'r gwead ymhellach gyda harmonïau ychwanegol (e.e. yn ystod y gytgan).

Offeryniaeth:

Band roc – cit drymiau, tambwrîn; prif gitâr/gitâr rhythm, gitâr fas; prif leisydd/lleisiau cefndir

Offerynnau cerddorfaol a ddefnyddir – llinynnau (tair feiolin a dwy fiola).

Rhythm:

Amser Pedwarplyg syml (amser **CYFFREDIN**) **h.y.** 4/4 = 4 curiad crosiet ym mhob bar [h.y. ♩ ♩ ♩ ♩]

Yn cynnwys llawer o rhythmau amrywiol. Mae'r rhythm lleisiol yn edrych yn gymhleth ond mae'n dilyn rhythm naturiol y geiriau, gan gynnwys tripled a nodau dotiog a rhythmau syth, ynghyd â nodau clwm.

Mae hyn yn arwain at rywfaent o **drawsacennu** cymhleth, sy'n nodweddiadol o'r steil roc.

Alaw:

Yn gysylltiol yn bennaf (fesul cam), ond gall gynnwys ychydig o symud digyswllt (rhai cyfyngau).

Cyflwyniad	Pennill 1, cyn-gytgan, + cytgan + interliwd offerynnol	Pennill 1, cyn-gytgan, + cytgan + interliwd offerynnol/lleisiol	Cyn-gytgan, cytgan + ailadrodd y gytgan (wedi'i chwtdogi ychydig)	Diweddglô
Rhai nodweddion:				
Offerynnol: (Cordioli) Effaith ystumiant agoriadol ar y gitâr	Gosodiad geiriau sillafog Dwy frawddeg sy'n debyg o ran ffurf Mae'r cwmpas yn 5 ^{ed} Cymysgedd o symud cysylltiol a digyswllt (h.y. 4 ^{ydd} sy'n disgyn, 5 ^{ed} sy'n codi, 3 ^{ydd} sy'n disgyn) Syniad cromatig yn y cytgan Bar gosod ansillafog 25 Mae diwedd y corws yn cyflwyno motiff llinynnau newydd a syniad melodig disgynnol mewn gitâr Interliwd: llinell alaw llinol mewn wythfedau	Diwedd yr 2 ^{ail} frawddeg cyn disgyn (3 ^{ydd} sy'n disgyn, wedyn hanner tŷn) Syniad newydd yn y llinynnau (gan gynnwys 5 ^{ed} sy'n disgyn) Patrymau llinynnau mwy cymhleth yn yr interliwd	Yn bennaf fel o'r blaen – ychydig o newidiadau traw	Yn seiliedig ar godau agoriadol Ffanffer byr ar y gitâr (chwarae'n fyrfyr)